Gwahanol yng Nghymru

Os ydych chi'n blentyn sy'n byw yng Nghymru, dyma ddeddfau gwych sy'n helpu i gefnogi eich hawliau. Sganiwch y codau QR i gael rhagor o wybodaeth am Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r Senedd (neu Senedd Cymru) yn gwneud llawer o ddeddfau sy'n effeithio ar bawb sy'n byw yng Nghymru gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu bod rhai cyfreithiau'n wahanol yng Nghymru i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Prydau Ysgol am Ddim

Mae Erthygl 27 yn dweud bod gennych hawl i gael cartref addas, bwyd a dillad.

Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn. Mae gan bob plentyn mewn Ysgolion Cynradd yng Nghymru hawl i gael Cinio Ysgol Am Ddim.

Terfyn Cyflymder 20 Milltir Yr Awr

Mae Erthygl 3 yn dweud bod rhaid i oedolion wneud yr hyn sydd orau i chi bob amser.

Yn ystod yr hydref yn 2023, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i fabwysiadu 20 milltir yr awr fel y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig – er enghraifft, o gwmpas ysgolion ac ardaloedd adeiledig. Y nod yw cadw cerddwyr a beicwyr, yn enwedig plant, yn ddiogel mewn ardaloedd adeiledig.

Rhoi Diwedd ar Gosb Gorfforol

Mae Erthygl 37 yn dweud bod gennych yr hawl i beidio â chael eich cosbi mewn ffordd greulon neu niweidiol.

Gwaherddir pob cosb gorfforol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys taro, slapio, ysgwyd a smacio. Gwaherddir pob cosb gorfforol yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i ymwelwyr yn ogystal â phobl sy'n byw yng Nghymru.

Llygredd Plastig

Mae Erthygl 24 yn dweud bod gennych hawl i amgylchedd glân.

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd yn ei gwneud yn drosedd cyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim) rhai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai fod eithriad yn berthnasol.

Addysg

Mae Erthygl 28 yn dweud bod gennych hawl i addysg, p'un a ydych yn cael eich addysgu yn yr ysgol, gartref neu yn rhywle arall.

Mae gan Gymru ei Chwricwlwm ei hun ar gyfer plant 3 i 16 oed er mwyn galluogi disgyblion i ddod yn;

- Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol
- Cyfranwyr creadigol a mentrus
- Dinasyddion moesegol a gwybodus
- Unigolion iach a hyderus

Nofio am Ddim

Erthygl 31 yw eich hawl i ymlacio a chwarae.

Mae gan blant dan 16 hawl i gael sesiwn nofio am ddim bob wythnos a mwy yn ystod y gwyliau.

Pleidleisio

Erthygl 12 yw eich hawl i gael eich clywed a'ch cymryd o ddifrif.

Yng Nghymru, caiff pobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.

Rhestr o erthyglau y dylid eu dilyn i helpu i gadw plant yn hapus, yn iach ac yn ddiogel yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar Grynodeb Comisiynydd Plant Cymru o CCUHP.

Mae'r Ganolfan Gyfreithiol y Plant yn wasanaeth draws-Gymru dwyieithog sydd yn darparu gwybodaeth a mynediad at gyngor cyfreithiol ar gyfer plant a phobl ifanc.

www.childrenslegalcentre.wales

phf Paul Hamlyn Foundation

Swansea University Prifysgol Abertawe
Hillary Rodham Clinton School of Law | Ysgol y Gyfraith

Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru | Children's Legal Centre Wales